Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

# Cydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol Gogledd Cymru

Ionawr 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron 2025 WG 53842 ISBN Digidol 978-1-80633-913-6

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol Gogledd Cymru[1] rhwng 13 a 17 Hydref 2025.

1.2 Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan gynnwys swyddogaethau mewn perthynas â mabwysiadu, ar ran Gweinidogion Cymru yn unol ag Adran 149B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.3 Mae Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2019 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd. Prif ddiben y cyfarwyddydau hyn yw sicrhau bod trefniadau ar y cyd effeithiol ar waith rhwng awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaethau mabwysiadu cyson ac effeithiol ledled Cymru. Mae Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol yn rhan o strwythur tair haen i ddarparu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

1.4 Mae Cydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cynnwys yr awdurdodau lleol canlynol; Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw'r awdurdod lleol dan sylw ar gyfer y rhanbarth hwn.

1.5 Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar sut mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant a diogelwch plant drwy gynnig sefydlogrwydd gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu, a all ddiwallu eu hanghenion yn ddiogel a gwella'r tebygolrwydd y byddant yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Gwnaethom werthuso'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu sy'n cefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaeth, a pha mor effeithiol yw'r trefniadau hynny wrth sicrhau canlyniadau o ansawdd i blant.

1.6 Gwnaethom ystyried y cwestiynau allweddol canlynol o dan benawdau perthnasol;

**Llesiant**

- A gaiff anghenion llesiant y plant eu diogelu'n briodol wrth gael sefydlogrwydd?
- A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hygyrch, yn ddiogel ac yn ymateb i anghenion y bobl?

[1] Mae Cydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol Gogledd Cymru yn cyfeirio ati'i hun fel Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS). Felly, dyma'r term a ddefnyddir yn yr adroddiad.

**Gofal a Chymorth**

- A yw plant, y teulu biolegol a'r teulu sy'n mabwysiadu yn cyflawni canlyniadau da drwy'r cymorth a ddarperir, sy'n hybu eu llesiant cyffredinol?

**Arweinyddiaeth a Llywodraethu**

- A yw'r trefniadau arwain a llywodraethu yn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel?

1.7 Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau Gweler Atodiad 2 a 3.

## 2. Crynodeb o ganfyddiadau'r arolygiad

2.1 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cymhwyso polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ond nid yw'r rhain wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r gwasanaeth eto. Mae'r Datganiad o Ddiben yn hygyrch ac yn cael ei adolygu'n flynyddol, ond nid yw'n cael ei rannu ag AGC, unigolion na chynrychiolwyr fel mater o drefn yn dilyn diwygiadau.

2.2 Mae'r prosesau asesu a chymeradwyo ar gyfer mabwysiadwyr yn drylwyr ac yn mynd i'r afael â materion diogelu a rheoli risg. Fodd bynnag, mae manylder y gwaith dadansoddi a'r broses o integreiddio dulliau rhianta therapiwtig yn anghyson.

2.3 Caiff gwasanaethau cymorth mabwysiadu eu gwerthfawrogi, ond mae eu hansawdd a'r gallu i gael gafael arnynt yn amrywio, ac mae rhestrau aros yn effeithio ar rai teuluoedd. Mae cynlluniau cymorth mabwysiadu yn aml yn adlewyrchu anghenion plant wrth iddynt gael eu mabwysiadu ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ond nid ydynt bob amser yn ystyried anghenion yn y dyfodol ac anghenion sy'n newid.

2.4 Mae'r cyfnod o amser y mae plant yn aros am leoliadau mabwysiadu yn amrywio. Mae gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru strategaeth farchnata ar gyfer 2025, ond mae prinder mabwysiadwyr, yn enwedig mabwysiadwyr sy'n siarad Cymraeg a mabwysiadwyr sy'n gallu cefnogi brodyr a chwiorydd a phlant ag anghenion ychwanegol, yn her o hyd. Gallai cysoni strategaeth farchnata Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru â strategaeth

y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ymhellach a sicrhau mwy o ffocws strategol wella'r gwasanaeth a ddarperir.

2.5 Mae'r broses o ddod o hyd i deuluoedd a'r broses baru yn blaenoriaethu anghenion y plant, ac mae cydgynllunio yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o'r Adroddiadau Mabwysiadu Plant a dogfennau Atodiad B (CARB) o ansawdd da ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Fodd bynnag, mae oedi o ran diweddariadau a dogfennau coll yn y cofnodion electronig yn llesteirio'r broses o ddod o hyd i deuluoedd a gall oedi lleoliadau.

2.6 Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad i'r Gymraeg a hygyrchedd, ac mae gwybodaeth a chymorth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

2.7 Mae trefniadau panel da ar waith, gydag amrywiaeth o arbenigedd, ond mae'r tri phanel yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol ac mae angen sicrhau amrywiaeth bellach ymhlith yr aelodau.

2.8 Ychydig iawn o fesurau sicrhau ansawdd sydd gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ar waith, nid yw amlder a chysondeb yr archwiliadau yn glir, ac nid yw'r adolygiadau o Ansawdd y Gwasanaeth bob amser yn cael eu llywio gan brosesau sicrhau ansawdd.

2.9 Mae CHARMS yn system rheoli achosion electronig o ansawdd da sy'n helpu Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i reoli gwybodaeth am fabwysiadu yn ddwyieithog, yn ddiogel ac yn effeithlon. Fodd bynnag, nid yw Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi manteisio'n llawn ar swyddogaeth y system. Nid oes polisi rheoli cofnodion sy'n benodol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, ac ar hyn o bryd, ni all y gwasanaeth nodi ble mae'r holl gofnodion mabwysiadu yn cael eu storio, sy'n fater y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef ar frys.

2.10 Caiff y Bwrdd Rheoli Rhanbarthol ei gefnogi gan gytundeb partneriaeth a lofnodwyd, ond nid yw'n cynnwys cynrychiolaeth ddigonol gan bartneriaid allweddol ac uwch-arweinwyr sydd â digon o awdurdod i wneud penderfyniadau o bob awdurdod lleol. Mae hyn yn arwain at oedi cyn gwneud penderfyniadau ac yn cyfyngu ar allu'r bwrdd i ddarparu goruchwyliaeth strategol effeithiol.

2.11 Mae gan y gwasanaeth weithlu ymroddedig a medrus o ymarferwyr sy'n gwerthfawrogi eu rheolwyr llinell ac sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ond nid yw natur fyfyriol y sesiynau goruchwylio yn cael ei chofnodi'n gyson. Mae cyfluniad a digonolrwydd y trefniadau rheoli yn dylanwadu ar allu'r gwasanaeth i ddatblygu gwaith yn effeithiol ac i ddarparu cyfeiriad strategol cyson.

## 3. Canfyddiadau

### Llesiant

3.1 Mae'r Datganiad o Ddiben yn hygyrch ac yn cael ei adolygu'n flynyddol, ond mae dealltwriaeth a phrosesau rhannu anghyson ymhlith ymarferwyr, partneriaid, aelodau paneli a rhanddeiliaid yn golygu nad yw pob unigolyn yn gweithredu'n gyson â dyletswyddau statudol a gweledigaeth y gwasanaeth. Gall hyn arwain at ddryswch, ymarfer anghyson, a cholli cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio o ansawdd uchel. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod y Datganiad o Ddiben yn cael ei adolygu'n flynyddol a rhaid iddo roi gwybod i AGC, unigolion a chynrychiolwyr am unrhyw ddiwygiadau yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.**

3.2 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwybodaeth hygyrch ac amserol i ddarpar fabwysiadwyr, ac mae prosesau sefydledig ar waith i reoli ymholiadau cychwynnol. Mae ethos cynhwysol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, sy'n annog ceisiadau gan amrywiaeth eang o bobl. Nid yw'r deunyddiau ar gyfer rhieni biolegol, cymorth mabwysiadu, a gwasanaethau cyfryngol bob amser yn gyflawn, yn hawdd dod o hyd iddynt neu ar gael mewn amrywiaeth o fformatau. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei datblygu a'i darparu mewn fformatau gwahanol, fel fformat hawdd ei ddeall a fformat digidol, er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt.**

3.3 Mae asesiadau Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru o ddarpar fabwysiadwyr yn drylwyr, yn mynd i'r afael â materion diogelu, ac yn cynnwys dadansoddiad manwl o gefndir, cymhellion a rhwydweithiau cymorth ymgeiswyr. Nododd nifer o fabwysiadwyr a ymatebodd i'r arolygon eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi gan weithwyr cymdeithasol, a bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn modd amserol a hygyrch. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr i fabwysiadwyr ac yn eu paratoi'n drylwyr, gan gynnwys darparu adnoddau dwyieithog. Mae'r rhan fwyaf o'r mabwysiadwyr a arolygwyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddeall effaith bosibl profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau bob amser yn dangos digon o fanylder dadansoddol nac yn canolbwyntio'n gyson ar ddulliau rhianta therapiwtig, gan gynnwys ystyried sut y bydd darpar fabwysiadwyr yn cymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ymgorffori Fframwaith Rhinweddau a Sgiliau Mabwysiadu**

**y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol[2] yn ei arferion asesu er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth.**

3.4 Mae oedi sylweddol cyn prosesu asesiadau rhai mabwysiadwyr, weithiau dros chwe mis, o ganlyniad i argaeledd cyfyngedig ymarferwyr neu brosesau gweinyddol. Mae'r ail reswm yn cynnwys oedi cyn casglu gwybodaeth neu adroddiadau meddygol, sy'n ofynnol cyn y gellir cynnal asesiadau neu gwblhau'r broses baru. Er ein bod yn cydnabod bod y mater hwn y tu hwnt i reolaeth Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i raddau, dylai'r gwasanaeth archwilio cyfleoedd i leihau oedi ar y cyd â phartneriaid strategol. Mynegodd un mabwysiadwr bryderon am dryloywder penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â newidiadau i'r meini prawf paru. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wella cysondeb o ran amseroldeb, cyfathrebu a thrylowyder yn ystod yr asesiad er mwyn sicrhau bod y broses yn deg ac yn effeithlon i bob darpar fabwysiadwr.**

3.5 Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i'r Gymraeg. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn unol â fframwaith 'Mwy na Geiriau', sy'n sicrhau bod pobl yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru hefyd yn cefnogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith, gan ddarparu cymorth cyfieithu lle bo angen, gan gynnwys ar gyfer ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg. Cadarnhaodd mabwysiadwyr eu bod yn cael gwybodaeth yn eu dewis iaith, a bod deunyddiau marchnata yn cael eu creu yn ddwyieithog. Gall pobl fynychu panel Cymraeg, ac mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i sicrhau bod pawb yn gallu cyfathrebu a chymryd rhan yn llawn, ni waeth beth fo'u hanghenion ieithyddol.

3.6 Cafwyd adborth cadarnhaol am gydberthnasau unigol rhwng plant, pobl, a gweithwyr yn ystod cyfweliadau. Mae'r paneli mabwysiadu yn cynnwys cwestiwn gan blentyn sydd wedi cael ei fabwysiadu, sy'n enghraifft o'r ffordd y caiff safbwyntiau'r plant eu ceisio a'r ffordd yr ymatebir iddynt yn ystod y broses gwneud penderfyniadau. **Mae hyn yn enghraifft o arfer da.** At hynny, mae cofnodion adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu hysgrifennu ar gyfer y plentyn, **sy'n enghraifft o arfer da**. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod dull systemig ar waith mewn perthynas ag eiriolaeth. Er y cynigir gwasanaeth eirioli neu y cyfeirir ato weithiau, nid yw hyn yn gyson; nid yw llais y plentyn bob amser yn cael ei gynrychioli wrth gynllunio ac adolygu. Ni ddefnyddir eiriolaeth i helpu unigolion i gymryd rhan fel mater o drefn. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ddatblygu dulliau clir i hyrwyddo gwasanaeth eirioli a gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod llais pob plentyn yn cael ei glywed ac y gweithredir arno yn ystod prosesau cynllunio ac adolygu asesiadau.**

---

[2] [Fframwaith Rhinweddau a Sgiliau Mabwysiadu y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol]

3.7 Nododd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u gwneud yn ystod y cyfnod arolygu. Mae'n gadarnhaol bod y rhan fwyaf o bobl yn gwybod sut i godi pryderon neu wneud cwynion am y gwasanaeth; fodd bynnag, mae lleiafrif o'r unigolion a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod y broses gwyno yn aneglur. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod pob teulu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael iddo a'i hawliau drwy gydol y broses fabwysiadu.**

3.8 Nid yw'r prosesau ar gyfer casglu a gwerthuso adborth gan blant, teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol wedi cael eu datblygu'n ddigonol ac nid oes proses gyson ar gyfer coladu'r wybodaeth hon a'i defnyddio i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru gynnig cyfleoedd rheolaidd a strwythuredig i bob rhanddeiliad roi adborth, a sicrhau bod yr adborth hwn yn cael ei ddadansoddi'n systematig a'i ddefnyddio i lywio adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth a'r broses o gynllunio ar gyfer y dyfodol.**

3.9 Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddiogelu, ac mae tystiolaeth bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud a bod camau'n cael eu cymryd pan fydd pryderon yn cael eu nodi. Fodd bynnag, mae bylchau yn y ddogfennaeth, y cyfarfodydd dilynol, a'r broses gynllunio amlasiantaethol. **Rhaid i'r rheolwyr sicrhau bod ganddynt systemau digon cadarn ar waith i oruchwylio rheolwyr yn effeithiol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau diogelu.**

## Gofal a Chymorth

3.10 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar waith, ond nid yw'r rhain wedi'u hymgorffori yn llawn. Nid yw ymwybyddiaeth y staff o fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru[3] yn anghyson ac nid yw pob un ohonynt wedi cwblhau'r hyfforddiant. Mae ansicrwydd ynghylch bodolaeth Hyrwyddwr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru ymhlith ymarferwyr yr awdurdod lleol ac ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod y fframwaith yn cael ei ystyried wrth gynllunio gofal ar gyfer babanod a atgyfeirir at y gwasanaeth. Mae

[3] Welsh Early Permanency Framework.pdf

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cydnabod bod cynnydd wedi bod yn araf ac mae'n bwriadu dysgu o'r lleoliad Sefydlogrwydd Cynnar Cymru cyntaf yn y rhanbarth a wnaed yn ystod y cyfnod arolygu. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru barhau i ymgorffori fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru a sicrhau bod penderfyniadau a'r rhesymau drostynt yn cael eu cofnodi'n glir ac yn gyson mewn cynlluniau gofal, Adroddiadau Mabwysiadu Plant, ac Adroddiadau Darpar Fabwysiadwyr. Dylai hyn fod yn unol â Chanllaw Arfer Da y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru archwilio cyfleoedd i hyrwyddo Sefydlogrwydd Cynnar Cymru a chynnwys pobl wrth ddatblygu strategaethau recriwtio a marchnata ar gyfer yr opsiwn hwn.**

3.11 Mae'r rhan fwyaf o'r Adroddiadau Mabwysiadu Plant a dogfennau Atodiad B (CARB) o ansawdd da ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Nododd Cadeiryddion Paneli ac ymarferwyr fod adroddiadau wedi gwella, a bod paneli yn oedi achosion yn briodol neu'n gwneud cais am ragor o wybodaeth pan fo angen. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn bodoli o hyd rhwng awdurdodau lleol mewn perthynas â CARB, gan gynnwys camgymeriadau, gwybodaeth goll, ac ansawdd amrywiol sy'n aml yn gysylltiedig â throsiant ymarferwyr uchel mewn awdurdodau lleol. Mae oedi o ran diweddariadau a dogfennau coll yn y cofnodion electronig yn llesteirio'r broses o ddod o hyd i deuluoedd ac yn oedi lleoliadau. Mae angen diweddariadau rheolaidd, dull sy'n seiliedig ar gryfderau a chynnwys llais a chefndir y plentyn yn gyson er mwyn cefnogi proses baru amserol ac effeithiol. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cydnabod y materion hyn, ac mae awdurdod lleol Sir y Fflint yn treialu ffurf ddiwygiedig fel rhan o fenter genedlaethol. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod dogfennau CARB yn gywir, yn gyfredol, yn adlewyrchu llais y plentyn ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a chefnogi penderfyniadau effeithiol am leoliadau.**

3.12 Mae gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru systemau ar waith i gefnogi'r broses baru, gan gynnwys cyfarfodydd olrhain misol, gwaith proffilio cynnar a diwrnodau 'Deall y Plentyn'. Mae'r systemau hyn yn helpu i lywio penderfyniadau paru ac yn helpu mabwysiadwyr i ddeall anghenion plant. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos amrywiadau o ran amseroldeb y broses baru ac oedi cyn symud ymlaen i'r panel. Nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio adnoddau ystyriol o drawma y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, fel yr amserlen trawma-meithrin. Mae prinder darpar fabwysiadwyr (sy'n broblem genedlaethol) yn cyfrannu at y ffaith bod rhai plant yn wynebu oedi cyn cael eu paru. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud mewn perthynas â pharu plant â darpar fabwysiadwyr er mwyn cefnogi canlyniadau'r plant.**

3.13 Mae'r rhan fwyaf o drefniadau pontio yn cael eu cynllunio'n dda ac yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, mabwysiadwyr a, lle y bo'n briodol, gweithwyr cymorth therapiwtig y plant. Mae'r rhan fwyaf o gyfnodau pontio yn hyblyg ac yn cael eu cynnal ar gyflymder sy'n gweddu i anghenion y plentyn, gydag adolygiadau rheolaidd a chyfathrebu da rhwng gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys gofalwyr maeth. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau pontio bob amser yn nodi pwy sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu nac yn rhoi digon o fanylion am amseroldeb a natur y cymorth ar gyfer y plentyn, y mabwysiadwyr a'r gofalwyr maeth. Mewn rhai achosion, mae nifer annigonol o staff neu drefniadau aneglur wedi arwain at oedi neu wedi cynyddu'r straen ar deuluoedd yn ystod prosesau pontio. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod cynlluniau pontio yn fanwl, gyda rolau clir a threfniadau cyflenwi cadarn, er mwyn cefnogi pawb dan sylw, lleihau unrhyw darfu i'r eithaf, a sicrhau parhad gofal.**

3.14 Tynnodd ymarferwyr mewn awdurdodau lleol sylw at ddull rhagweithiol Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, ei brosesau cyfathrebu rheolaidd, a'i ymrwymiad i gefnogi plant a theuluoedd. Fodd bynnag, mae oedi o ran gwaith taith bywyd a datblygiad cynlluniau mabwysiadu yn gysylltiedig â heriau o ran recriwtio a chadw staff, yn ogystal â diffyg amser a lle dynodedig. Mae adborth gan deuluoedd sy'n mabwysiadu ac ymarferwyr yn dangos bod gwaith taith bywyd weithiau'n anghyflawn, yn cael ei oedi, neu o ansawdd gwael. Gall anghysondeb wrth gwblhau gwaith taith bywyd a'i ansawdd effeithio ar ddealltwriaeth plant o'u hunaniaeth a'u hanes, sydd hefyd yn effeithio ar sefydlogrwydd lleoliadau. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru atgyfnerthu hyfforddiant a goruchwyliaeth mewn perthynas â sicrhau ansawdd ymhellach er mwyn sicrhau bod gwaith taith bywyd yn cael ei gwblhau mewn modd amserol a'i fod yn adlewyrchu profiadau a hunaniaeth pob plentyn**

3.15 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi penodi gweithiwr cymdeithasol gwaith taith bywyd sy'n rhoi arweiniad effeithiol i ymarferwyr ac yn sicrhau ansawdd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys llythyrau yn ddiweddarach mewn bywyd sydd wedi'u hysgrifennu'n dda, straeon therapiwtig a gweithwyr cymorth therapiwtig, ond mae rhestrau aros yn cyfyngu ar fynediad ar ôl mabwysiadu . Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, ynghyd ag awdurdod lleol Wrecsam, wedi cyflwyno polisi, pecyn cymorth a grŵp gorchwyl a gorffen gwaith taith bywyd yn ddiweddar er mwyn gwella amseroldeb ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer pob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal. **Mae hyn yn arfer da**. Ni ddarperir gwaith taith bywyd i'r panel paru fel mater o drefn; byddai hyn yn rhoi sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn yr amserlenni disgwyliedig ac yn sicrhau bod plant yn cael gwasanaeth o'r un ansawdd ym mhob rhan o'r rhanbarth. Er bod enghreifftiau o

ddeunyddiau taith bywyd o ansawdd da, mae ansawdd ac amseroldeb gwaith taith bywyd yn amrywio ac nid yw'n bodloni Arfer Da Gwaith Taith Bywyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gyson. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod gwaith taith bywyd yn cael ei ymgorffori yn unol â Chanllaw Arfer Da Gwaith Taith Bywyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**[4].

3.16 Mae teuluoedd ac ymarferwyr yn gwerthfawrogi gwasanaethau cymorth mabwysiadu, ond mae'r gallu i gael gafael arnynt, eu hansawdd a'u hamseroldeb yn amrywio ym mhob rhan o'r rhanbarth. Mae rhestrau aros ar gyfer cymorth therapiwtig yn gyffredin, ac mae oedi o ran ymyriadau wedi peri risg i leoliadau mabwysiadu mewn rhai achosion. Nododd ymatebion i'r arolwg gan fabwysiadwyr, teuluoedd a phartneriaid nad yw llwybrau at gymorth bob amser yn glir a nodwyd bod angen mwy o arbenigwyr, fel seicolegwyr a therapyddion galwedigaethol. Mae systemau brysbennu ar waith, caiff rhestrau aros eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae'r ymarferwyr yn ceisio datrysiadau mewn modd rhagweithiol, ond gall oedi cyn gwneud penderfyniadau am gyllid danseilio sefydlogrwydd a llesiant teuluoedd sy'n mabwysiadu. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod pob teulu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael iddo drwy gydol y broses fabwysiadu yn ogystal ag ar ôl mabwysiadu.**

3.17 Mae cynlluniau cymorth mabwysiadu yn aml yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion cyfannol y plant wrth iddynt gael eu mabwysiadu, ond nid ydynt bob amser yn adlewyrchu anghenion yn y dyfodol nac anghenion sy'n newid. Nid yw cynlluniau bob amser yn cynnwys digon o fanylion am gyfrifoldebau, darpariaeth, a phrosesau adolygu. Serch hynny, caiff cynlluniau cymorth eu hadolygu, flwyddyn ar ôl mabwysiadu fel arfer ac mewn ymateb i anghenion newidiol. Mae ansawdd a chysondeb adolygiadau yn amrywio, ac ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod archwiliad systematig yn cael ei gynnal neu fod canlyniadau adolygiadau'n cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru adolygu llwybrau cymorth mabwysiadu, eirioli dros fwy o adnoddau ac ymrwymiad cryfach rhwng asiantaethau, a sicrhau bod cynlluniau cymorth yn gadarn ac yn nodi cyfrifoldebau'n glir. Bydd hyn yn helpu i ddarparu cymorth amserol a theg sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer pob teulu.**

3.18 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau cyfryngol sy'n cefnogi oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu a pherthnasau biolegol i ddeall eu hanes a chael gafael ar wybodaeth. Mae'r ymarferwyr yn rhoi esboniadau clir, cymorth emosiynol, a chymorth ymarferol mewn modd

[4] Life Journey Framework Good Practice Guide

sensitif, gan gynnwys gwasanaeth cwnsela, ac yn helpu unigolion i gael gafael ar gofnodion mabwysiadu ac i wneud cyswllt. Mae'r ymarferwyr yn dangos sgìl a sensitifrwydd wrth reoli hanesion cymhleth, ac **mae hyn yn arfer da**. Mae'r gwasanaethau cyfryngol yn wynebu heriau o ganlyniad i restrau aros ac adnoddau cyfyngedig, yn enwedig ar gyfer grwpiau cymorth i rieni biolegol. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru adolygu'r trefniadau dyrannu adnoddau er mwyn sicrhau bod cymorth amserol, digonol a theg ar gael i bawb sy'n cael gwasanaethau cyfryngol.**

3.19 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cefnogi cyfarfodydd rhwng mabwysiadwyr a theuluoedd biolegol yn rhagweithiol ac yn llwyddiannus, ac **mae hyn yn arfer da**. Mae'r gwasanaeth Myfyrio yn darparu cymorth gwerthfawr i deuluoedd biolegol yn y rhanbarth ac mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn annog cyswllt rhwng plant sydd wedi cael eu mabwysiadu a'u teuluoedd biolegol. Fodd bynnag, ni chaiff dulliau cyswllt modern eu hymgorffori'n gyson yn ymarferol. Nododd ymatebion i'r arolwg gan staff a theuluoedd biolegol mai ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i deuluoedd biolegol. Nid yw Offeryn Cynllunio Cyswllt y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol[5], sy'n cefnogi cyswllt wedi'i deilwra ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn ac nid yw'r trefniadau bob amser yn cael eu hystyried yn llawn yn yr hirdymor. Cyswllt anuniongyrchol (drwy flwch llythyrau) yw'r dewis arferol o hyd, ac ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod anghenion sy'n newid yn cael eu hadolygu'n barhaus neu fod addasiadau'n cael eu gwneud i ymateb iddynt. Er mwyn cysoni â'r arfer gorau cenedlaethol, **dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod pob ymarferydd yn cwblhau hyfforddiant ar Offeryn Cynllunio Cyswllt y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac yn rhoi'r hyfforddiant hwnnw ar waith fel mater o drefn, a bod trefniadau cyswllt yn cael eu hadolygu a'u cofnodi'n rheolaidd.**

3.20 Mae aelodau paneli yn cael sesiynau sefydlu, arfarniadau blynyddol, a hyfforddiant parhaus. Mae ganddynt arbenigeddau amrywiol, gan gynnwys profiad bywyd ym maes mabwysiadu a maethu, yn ogystal â chefndiroedd ym maes iechyd ac addysg, ac maent yn darparu gwaith craffu da. Mae cynghorwyr meddygol a chyfreithiol ar gael i bob panel; **mae hyn yn arfer da.**

3.21 Mae trefniadau paneli ym mhob rhan o'r rhanbarth yn dda, ond mae anghysondeb amlwg o ran y ffordd y mae paneli yn gweithredu, yn llunio cofnodion, ac yn rhoi prosesau sicrhau ansawdd ar waith. Mae hyn yn arwain at amrywioldeb o ran ansawdd a thryloywder penderfyniadau. Mae aelodau paneli wedi nodi bod angen amrywio'r aelodaeth er mwyn adlewyrchu'r gymuned a gaiff ei gwasanaethu'n well. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**

[5] Offeryn Cynllunio Cyswllt y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

**adolygu gweithrediadau'r paneli er mwyn sicrhau bod safonau clir a chyson ar waith ar gyfer dogfennaeth, sicrhau ansawdd ac amrywiaeth.**

3.22 Mae anghysondebau o ran sut mae Penderfynwyr Asiantaethau yn cofnodi eu penderfyniadau, sy'n amrywio o arfer eithriadol i achosion lle mae'r dadansoddiad a'r rhesymeg a gofnodwyd yn annigonol. **Dylai penderfyniadau Penderfynwyr Asiantaethau gael eu cofnodi'n glir yng nghofnodion y panel, gan gynnwys dadansoddiad a rhesymeg, er mwyn atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd.**

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

3.23 Caiff Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ei gyfarwyddo a'i gefnogi gan Fwrdd Rheoli Rhanbarthol. Ar hyn o bryd, nid oes digon o gynrychiolwyr awdurdodedig o bob awdurdod lleol ac o feysydd iechyd ac addysg ar y Bwrdd Rheoli Rhanbarthol. Nododd ymarferwyr oedi o ran penderfyniadau y mae angen i'r bwrdd eu cymeradwyo. Mae'r gwasanaeth wedi diwygio'r cytundeb partneriaeth yn ddiweddar er mwyn sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau drwy fwyafrif er mwyn lleihau unrhyw oedi. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru atgyfnerthu darpariaeth y cytundeb partneriaeth a sicrhau bod cynrychiolwyr y bwrdd yn meddu ar awdurdod digonol i wneud penderfyniadau a bod yr holl bartneriaid yn dangos mwy o ymrwymiad i gynllunio'n strategol.** Bydd hyn yn sicrhau bod plant sydd wedi cael eu mabwysiadu yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu neu arbenigol yn gyson, er mwyn hybu eu llesiant cyffredinol a chefnogi sefydlogrwydd.

3.24 Mae amrywiadau mewn ymarfer lleol yn effeithio ar gysondeb ac ansawdd mabwysiadu, er gwaethaf rhai enghreifftiau o gydweithio effeithiol. Mae diffyg dull unedig o roi cymorth, gwneud penderfyniadau, a sicrhau ansawdd yn arwain at brofiadau anghyson yn dibynnu ar yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am y plentyn. Nododd ymarferwyr heriau o ran defnyddio systemau a meini prawf gwahanol ym mhob un o'r chwe awdurdod lleol, a gaiff eu gwaethygu gan ddiffyg trefniadau cydwasanaeth. Mae sefydlu model ymarfer ar gyfer y rhanbarth cyfan, gyda threfniadau llywodraethu a phroses safonol gwell, yn hanfodol i sicrhau bod cymorth teg, amserol a chyson ar gael i bob plentyn a theulu.

3.25 Mae angen atgyfnerthu'r cyfeiriad strategol, y trefniadau partneriaeth a'r cyllid cynaliadwy sydd ar gael ym mhob awdurdod lleol. Mae dibyniaeth y

gwasanaeth ar gyllid grant, cyfyngiadau ar adnoddau, ac anawsterau o ran recriwtio a chadw ymarferwyr awdurdodau lleol yn effeithio ar ansawdd, cynaliadwyedd a morâl yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae sicrhau cydraddoldeb mewn awdurdodau lleol yn heriol o hyd. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ddatblygu cynllun strategol clir gyda chyllid sicr a chytundebau partneriaeth cadarn er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau mabwysiadu o ansawdd uchel.**

3.26 Er mwyn sicrhau bod trefniadau arweinyddiaeth yn cefnogi'n llawn amcanion y gwasanaeth, bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu cyflawni'n gyson ac y caiff gwelliannau adnabuwyd eu gyrru ymlaen yn gyflym, byddai'n fuddiol i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru adolygu strwythur a digonolrwydd y rolau rheoli. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys ystyriaeth o gyfrifoldebau'r Rheolwr Cydweithrediad Mabwysiadu Rhanbarthol ar draws gwahanol wasanaethau a'i bresenoldeb corfforol o fewn y tîm craidd, gyda'r nod o gryfhau arweinyddiaeth strategol a sicrhau goruchwyliaeth reoli gyson ac effeithiol. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod y strwythur a'r digonolrwydd rheoli yn ddigonol i ddarparu arweinyddiaeth effeithiol a goruchwyliaeth reoli gadarn.**

3.27 Maegan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru strategaeth farchnata ar gyfer 2025; fodd bynnag, mae prinder amser ac adnoddau dynodedig yn cyfyngu ar ymdrechion. Mae prinder mabwysiadwyr, yn enwedig mabwysiadwyr sy'n siarad Cymraeg a mabwysiadwyr a all gefnogi brodyr a chwiorydd a phlant ag anghenion ychwanegol, yn parhau i herio gallu Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i ddarparu lleoliadau sy'n diwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol plant. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru barhau i atgyfnerthu ei ddefnydd o ddata i lywio'r strategaeth recriwtio a marchnata, gan gynnwys dadansoddiad o gyfraddau trosi o'r broses ymholi i'r broses gwneud cais a'r cam cymeradwyo. Dylid rhoi dolenni adborth ffurfiol ar waith ar gyfer mabwysiadwyr er mwyn llywio a mireinio dulliau marchnata.** Bydd hyn yn sicrhau bod y strategaethau recriwtio yn ymatebol i ganfyddiadau dadansoddiad yr awdurdod lleol o anghenion y boblogaeth.

3.28 Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi eu rheolwyr llinell a'u presenoldeb a'u hargaeledd y tu allan i oruchwyliaeth ffurfiol. Mae'r ymarferwyr yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd sy'n rhoi pwyslais cryf ar lesiant y staff, ac mae hyn yn amlwg yn y cofnodion achos. **Mae hyn yn arfer da.** Fodd bynnag, nid yw natur fyfyriol y sesiynau goruchwylio yn cael ei chofnodi'n gyson na'i hymgorffori yn yr ymarfer o ddydd i ddydd. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru atgyfnerthu ei ddull o gynnal sesiynau goruchwylio myfyriol drwy sicrhau eu bod yn cael eu dogfennu'n glir a'u bod yn cefnogi staff i fyfyrio ar eu**

**hymarfer a dysgu o brofiadau, yn ogystal â gwella canlyniadau i blant a theuluoedd.**

3.29 Nid yw'r trefniadau arfarnu a sefydlu yn cael eu nodi'n glir mewn nodiadau goruchwylio. Dywedodd yr ymarferwyr nad oes prosesau sefydlu ffurfiol ar waith a bod nifer ohonynt yn dysgu yn eu rolau mewn ffordd anffurfiol drwy arsylwi a chael cymorth gan gymheiriaid, yn hytrach na thrwy gael arweiniad strwythuredig. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau cyfnod sefydlu trylwyr ac yn cael ei arfarnu'n rheolaidd, a'i fod yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol a myfyrio ar ei ymarfer. Dylid dogfennu a monitro'r prosesau hyn i gefnogi sefydlogrwydd y gweithlu ac ymarfer o ansawdd uchel.**

3.30 Mae'r gwasanaeth yn elwa ar y defnydd o system rheoli achosion electronig CHARMS, sy'n helpu i reoli gwybodaeth am fabwysiadu yn ddwyieithog, yn ddiogel ac yn effeithlon. Nid yw Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi datblygu neu fanteisio ar swyddogaeth y system yn llawn eto. Mae dogfennau coll neu anghyflawn mewn ffeiliau achos, defnydd anghyson o systemau electronig, ac ansicrwydd o ran y lleoliad storio a diogelwch cofnodion mabwysiadu plant. Mae'r materion hyn yn llesteirio'r gallu i reoli achosion a sicrhau ansawdd yn effeithiol ac yn peri risgiau i blant a theuluoedd a fydd yn ceisio cael gafael ar eu cofnodion yn y dyfodol. Mae angen gwneud datblygiadau pellach i alluogi gwaith di-dor ar draws awdurdodau a mynediad uniongyrchol at gofnodion ym mhob awdurdod lleol. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu polisi rheoli cofnodion unedig ar gyfer y rhanbarth cyfan, a'i roi ar waith. Rhaid rhoi polisïau a gweithdrefnau clir yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol ar waith ar gyfer cofnodi, storio a chael gafael ar gofnodion. Rhaid i'r holl gofnodion mabwysiadu gael eu lleoli a'u diogelu ar frys.**

3.31 Mae'n hollbwysig bod enw pob plentyn yn cael ei gofnodi'n gywir ac yn gyson, a'i fod yn cael ei sillafu'n gywir, er mwyn cynnal uniondeb y cofnod a dangos parch tuag at hunaniaeth y plentyn. Dylai'r cofnodion hefyd gynnwys digon o fanylion i ddarparu cyfrif clir a dealladwy o daith y plentyn drwy'r broses fabwysiadu, gan gefnogi tryloywder a dealltwriaeth ystyrlon. **Dylid datblygu prosesau sicrhau ansawdd ac archwilio drwy ystyried profiadau pobl sydd wedi cael eu mabwysiadu a allai gael gafael ar eu cofnodion gofal yn y dyfodol.**

3.32 Ychydig iawn o fesurau sicrhau ansawdd sydd ar waith gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae'r strategaethau presennol sydd ar waith ar gyfer goruchwylio, dadansoddi adborth a monitro data yn **annigonol**. Nid oes

unrhyw fframwaith sicrhau ansawdd ffurfiol sy'n benodol i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, ac nid yw'n glir pa mor aml y caiff archwiliadau eu cynnal na pha mor gyson ydynt. Mae hyn yn golygu nad yw adolygiadau o'r gwasanaeth bob amser yn cael eu llywio gan brosesau sicrhau ansawdd ac y gellir colli cyfleoedd i fyfyrio ar arfer da. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru roi fframwaith sicrhau ansawdd strwythuredig ar waith er mwyn sicrhau goruchwyliaeth gyson a gwelliant parhaus ym mhob un o feysydd y gwasanaeth.**

## 4. Meysydd Blaenoriaeth i'w Gwella

4.1 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod y Datganiad o Ddiben yn cael ei adolygu'n flynyddol a r**haid** iddo roi gwybod i AGC, unigolion a chynrychiolwyr am unrhyw ddiwygiadau yn unol â Rheoliad 5(3) a (6) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.2 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod ei strategaeth farchnata yn gadarn ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn cefnogi ei awydd i recriwtio nifer digonol o fabwysiadwyr yn unol â Chyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015.

4.3 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod gweithgarwch paru yn cael ei gynnal mewn modd amserol bob amser yn unol â Rheoliad 36 a 17 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005.

4.4 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod ganddo systemau digon cadarn ar waith i oruchwylio'r rheolwyr yn effeithiol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau diogelu yn unol â Rheoliad 10 (4) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.5 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod dogfennau CARB yn gywir, yn gyfredol ac yn unol â Rheoliad 15 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.6 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wella cysondeb o ran amseroldeb, cyfathrebu a thryloywder yn ystod y broses asesu yn unol â Rheoliadau 21 i 30 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

4.7 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod pob plentyn a theulu yn cael cynnig gwasanaeth eirioli a bod hyn yn cael ei ddogfennu yn yr holl gofnodion perthnasol yn unol â Rheoliad 15 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.8 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei gynrychioli'n gyson ym mhob asesiad, cynllun gofal, ac adolygiad yn unol â Rheoliad 15 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 ac adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

4.9 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod argaeledd a darpariaeth y gwasanaeth mabwysiadu, a gwasanaethau cymorth mabwysiadu, yn gyson ac yn amserol yn unol â Rheoliadau 16 a 17 o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 a Chyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015.

4.10 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod cynlluniau cymorth mabwysiadu o ansawdd cyson, eu bod yn cyd-fynd â'r canllawiau arfer da ar gyfer cymorth a chyswllt a'u bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol yn unol â Rheoliad 16 a 17 o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005.

4.11 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod gwaith taith bywyd, fel rhan o'r gwasanaeth cymorth mabwysiadu, yn cael ei wneud a'i ddarparu'n amserol yn unol â Rheoliad 4(2) o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005.

4.12 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod pob teulu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael iddo a'i hawliau drwy gydol y broses fabwysiadu yn unol â rheoliadau 12, 13 a 15 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.13 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod y trefniadau cyswllt ar gyfer plant a theuluoedd biolegol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cofnodi'n glir, a'u bod yn adlewyrchu lles pennaf a dymuniadau'r plentyn, yn unol â Rheoliad 19 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 a Rheoliadau 35 a 36 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, yn ogystal ag egwyddorion cyffredinol Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

4.14 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliad 39(1) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019, a bod trefniadau effeithiol ar waith i fonitro, adolygu, a gwella ansawdd y gwasanaeth, gan gynnwys gwerthuso gweithgarwch ymgysylltu ac archwiliadau er mwyn llywio datblygiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol.

4.15 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru roi fframwaith sicrhau ansawdd strwythuredig ar waith er mwyn sicrhau goruchwyliaeth gyson a gwelliant parhaus ym mhob un o feysydd y gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau'r paneli, yn unol â Rheoliad 39(1) a Rheoliad 6 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.16 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau cydymffurfiaeth â Pharagraff 7 (gan gynnwys Paragraff 7(4) (c), (f), (m), (n) ac (o) o Gyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015 drwy ddatblygu ei raglen waith bresennol i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol o bobl ag awdurdod digonol o awdurdodau lleol, adrannau addysg, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar y Bwrdd Rheoli Rhanbarthol.

4.17 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ddatblygu cynllun strategol clir â chyllid sicr a chytundebau partneriaeth cadarn yn unol â Pharagraff 9(1) o Gyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015.

4.18 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau cyfnod sefydlu ac yn cael ei arfarnu'n briodol yn unol â Rheoliad 23(1) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.19 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod ffurfweddiad a digonolrwydd y tîm rheoli yn ddigonol i ddarparu arweinyddiaeth effeithiol a goruchwyliaeth gadarn yn unol â Rheoliadau 9(1)(a) a 21 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

4.20 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod ei drefniadau rheoli cofnodion yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Rheoliad 28(1) ac Atodlen 3 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

## 5. Argymhelliad

5.1 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru archwilio cyfleoedd i leihau oedi wrth gwblhau gwiriadau perthnasol gyda phartneriaid strategol.

5.2 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ymgorffori Fframwaith Rhinweddau a Sgiliau Mabwysiadu y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn ei arferion asesu.

5.3 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru barhau i atgyfnerthu ei ddefnydd o fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru er mwyn sicrhau gwaith cynllunio sefydlogrwydd cyson ac amserol.

5.4 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru barhau i flaenoriaethu amrywiaeth ymhlith aelodau paneli er mwyn sicrhau bod y panel yn cynrychioli'r boblogaeth mae'n ei gwasanaethu.

5.5 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod penderfyniadau Penderfynwyr Asiantaethau yn cael eu cofnodi'n glir yn y cofnodion, gan gynnwys dadansoddiad a rhesymeg, er mwyn atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd.

5.6 **Dylid** atgyfnerthu'r broses o gofnodi sesiynau goruchwylio myfyriol ar gyfer staff.

5.7 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru roi dull ymarfer therapiwtig ar waith ar gyfer y rhanbarth cyfan er mwyn sicrhau bod pob plant a theulu yn cael cymorth teg, amserol a chyson drwy gydol y broses fabwysiadu yn unol â chanllawiau arfer da y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

5.8 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru barhau i hyrwyddo trefniadau contract mabwysiadu modern yn unol â chanllawiau arfer da y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

5.9 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sicrhau bod gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn y dyfodol yn seiliedig ar y galw presennol a'r galw a ragwelir, a bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni cyfrifoldebau statudol a chefnogi mynediad amserol.

## 6. Y camau nesaf

6.1 Mae AGC yn ei gwneud y ofynnol i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru lunio cynllun gwella a'i rannu ag AGC erbyn 10/03/2026.

6.2 Bydd AGC yn adolygu'r cynllun gwella ac yn ceisio cael sicrwydd pellach o gynnydd. Gwneir hyn drwy gyfarfod â Phennaeth Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol dan sylw ynghyd â'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol o fewn 18-24 mis i gyhoeddi'r adroddiad.

6.3 Bydd AGC yn ystyried gweithgarwch pellach er mwyn cael sicrwydd o welliant parhaus a bydd yn ystyried gweithgarwch ymgysylltu pwrpasol i gefnogi ei gwaith monitro parhaus.

## 7. Cydnabyddiaethau


Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

**Arolygiaeth Gofal Cymru**



**Julie Heal**
Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant

**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**<u>Atodiad 1</u>**

### Methodoleg

### Hunanwerthuso

- Gofynnwyd i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru gwblhau Hunanwerthusiad er mwyn myfyrio ar ei berfformiad ei hun mewn meysydd penodol o'r gwasanaeth.

### Gwaith maes

- Gwnaethom ystyried profiadau 23 o bobl drwy edrych ar eu cofnodion a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 17 o gofnodion ac olrhain chwech ohonynt.
- Gall olrhain cofnod unigolyn gynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr cymdeithasol mabwysiadu, ei weithiwr cymdeithasol gofal plant, y rheolwr, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu â 13 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr (gan gynnwys rhieni sy'n mabwysiadu, gofalwyr maeth ac oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu) drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws.
- Gwnaethom ymgysylltu â 49 o ymarferwyr a rheolwyr drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol gofal plant, gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu, gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu, rheolwyr tîm, rheolwyr tîm cynorthwyol, Swyddogion Adolygu Annibynnol, Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol a Phennaeth Gwasanaethau Plant ar gyfer awdurdod lleol y Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol.

- Gwnaethom ymgysylltu â phedwar o gynrychiolwyr o asiantaethau partner drwy gyfweliadau.
- Gwnaethom arsylwi ar baneli mabwysiadu a siarad â thri chadeirydd panel a 28 o aelodau panel.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- Gwnaethom arsylwi ar sesiwn Aros a Chwarae.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr a rheolwyr Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, sefydliadau partner a phobl. Cawsom ymatebion gan 25 o ymarferwyr a rheolwyr o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, 110 gan bobl a 27 gan randdeiliaid perthnasol. Cawsom un ymateb gan deulu biolegol.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

**Y Gymraeg**

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Roedd y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar gael drwy gydol yr arolygiad, gan gynnwys arolygydd a oedd yn siarad Cymraeg ar y paneli a gynhaliwyd yn y Gymraeg ac ymarferwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar y safle yn ystod y gweithgarwch arolygu. Roedd hyn yn sicrhau bod pobl yn gallu cael gwasanaethau yn eu dewis iaith lle bo angen.

## Atodiad 2

### Rhestr Terminoleg

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) statudol ar hyn o bryd a rhaid iddi weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae |

| | |
|---|---|
| | risg na fydd y Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Arferion da** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn y Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol. Mae hyn yn golygu ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |

## Atodiad 3

### Tabl Diffinio Meintiau

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |